**Mid 01-01(min)**

**Cyfarfod Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth**

**Dyddiad:** Dydd Gwener 2il Chwefror 2001

**Amser:** 10.30 am

**Lleoliad:** Ysgol Uwchradd Gwernyfed, Three Cocks

**Yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| **Elin Jones, Cadeirydd** | Plaid Cymru | Ceredigion |
| **Mick Bates** | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| **Nick Bourne** | Ceidwadwyr | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Cynog Dafis** | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Glyn Davies** | Ceidwadwyr | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Delyth Evans** | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Kirsty Williams** | Democratiaid Rhyddfrydol | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor:**

| | |
|---|---|
| **Julia Annand** | Clerc y Pwyllgor |
| **Stephen Thomas** | Dirpwy Glerc y Pwyllgor |

| | |
|---|---|
| **Phil Mulraney** | Cymorth Ysgrifenyddol |
| **Judith Yorston** | Cymorth Ysgrifenyddol |

**Ymddiheuriadau:** Nid oedd rhai.

**Eilyddion:** Nid oedd rhai.

**Datganiadau o Fuddiant :** Nid oedd rhai.

**Sylwadau Agoriadol**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod. Eglurodd mai diben y cyfarfod oedd trafod materion sy’n effeithio ar bobl ifanc yn y rhanbarth ac yn arbennig y ddogfen "Ymestyn Hawliau", a fabwysiadwyd gan y Cynulliad yn ddiweddar. Câi’r sylwadau a wneid heddiw eu hadrodd yn ôl i Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Cefnogi Pobl Ifanc yng Nghymru**

Gwrando ar gyflwyniadau gan cynrychiolwyr Cynghorau Sir Powys a Cheredigion.

**Mr Alan Whittick, Cyd Gyfarwyddwr Dros Dro Adran Gymuned, Hamdden ac Adloniant Cyngor Sir Powys**

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol fel rhan o’r cyflwyniad:

- Croesawai Mr Whittick yr adroddiad "Ymestyn Hawliau".
- Tynnodd sylw at "Strategaeth Gwaith Ieuenctid" Gwasanaeth Ieuenctid Powys sy’n newid ffocws gwaith ieuenctid yr awdurdod lleol er mwyn sefydlu agenda sy’n rhoi sylw uniongyrchol i faterion yn ymwneud ag allgáu cymdeithasol. Yr oedd y strategaeth yn ffrwyth ymgynghori â 600 o bobl ifanc, y sector gwirfoddol a staff y gwasanaeth ieuenctid. Yr oedd archwiliad cynhwysfawr o’r gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru hefyd wedi’i gwblhau ym mis Mai 2000. Dangosai fod 7,714 o bobl 11-25 oed wedi defnyddio’r gwasanaethau a gynigir gan Gyngor Sir Powys mewn cyfnod o 12 mis.
- Mae agenda gwaith ieuenctid Cyngor Sir Powys yn canolbwyntio ar faterion megis gweithredu yn erbyn allgáu, dysgu gydol oes, diogelwch yn y gymuned, gwasanaethau gwybodaeth a chefnogi i bobl ifanc a gwaith gydag ysgolion. Teimla’r awdurdod ei fod yn darparu gwasanaeth rhagorol mewn llawer o feysydd ond fod angen iddo wneud rhagor o waith mewn meysydd eraill, megis ennyn cyfranogiad pobl ifanc ag anableddau.
- Mae i’r gwasanaeth ieuenctid ym Mhowys botensial mawr. Teimla’r awdurdod yn gryf y dylid rhoi’r gefnogaeth a’r hyfforddiant priodol i bobl ifanc ac y dylid gwneud popeth i

sicrhau bod llais pobl ifanc yn cael ei glywed. Caiff llawer o'r rhaglenni a gynigir gan yr awdurdod eu cynnal mewn partneriaeth â chyrff eraill ac nid ydynt yn cael eu hariannu â chyllid craidd.

- Ymysg y materion y seilir yr agenda ieuenctid ym Mhowys arnynt mae:
- Gwasanaethau gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig
- Mynediad at gyfleoedd hamdden, creadigol, chwaraeon, celfyddydol a chymdeithasol
- Gallu cyrchu at drafnidiaeth
- Gostwng lefelau troseddu a thrais gan bobl ifanc ac yn eu herbyn
- Gwella lefelau llythrennedd
- Un o agweddau dadleuol y strategaeth yw'r modd y mae'r awdurdod yn cynnig darpariaeth mewn ardaloedd gwledig bach. Mae Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod Lleol yn cydnabod bod ganddo gyfrifoldeb i weithio gyda phobl ifanc ac eraill i ganfod sut y gellid gwneud darpariaeth o'r fath.
- Mae'r awdurdod yn awyddus i weithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol, clybiau ffermwyr ifanc – mae Powys yn buddsoddi mwy o arian mewn CFfI nag unrhyw awdurdod arall yng Nghymru na Lloegr – y YMCA ayb
- Mae Mr Whittick yn credu mewn rhoi'r cyfle i bobl ifanc i ddefnyddio a dysgu'r iaith Gymraeg. Mae'r awdurdod yn cydnabod bod ganddo beth ffordd i fynd yn y maes hwn a bod yna ddiffyg cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae'r Adran Gymuned, Hamdden ac Adloniant wedi ymladd yn galed am adnoddau ychwanegol ar gyfer gwaith ieuenctid. Nid yw llythyr y Cynulliad Cenedlaethol at Gyngor Sir Powys yngln â dyraniad y gyllideb yn pridiannu arian ar gyfer gwasanaethau ieuenctid ac eleni yr oedd yr awdurdod wedi cytuno ar ei gyllideb ieuenctid cyn i'r llythyr am y dyraniad gyrraedd. Yr oedd Mr Whittick yn amheus pa un a fyddai'r arian yn treiddio i lawr i brosiectau ieuenctid ym Mhowys. Gofynnodd am fwy o ddeialog rhwng y Cyngor Sir a'r Cynulliad i roi sylw i'r broblem hon yn y dyfodol.
- I grynhoi, dywedodd Mr Whittick fod angen buddsoddiad ar y gwasanaeth ieuenctid ym Mhowys yn gyfnewid am incwm; mwy o weithwyr amser llawn; mae angen iddo sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu at y meysydd iawn a bod cyllid yn treiddio drwy'r system. Mae gwaith rhyngasiantaethol a chynllunio ar y cyd yn hanfodol er mwyn ennyn cyfranogiad pobl ifanc ar bob lefel.

**Geraint Lewis, Adran Addysg Cyngor Sir Ceredigion**

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cymeradwyodd Mr Lewis yr egwyddorion yn y ddogfen "Ymestyn Hawliau", yn enwedig y pwyslais a rydd ar ystyried anghenion yr unigolyn, a lle pobl ifanc mewn creu polisi.
- Dywedodd fod strategaeth ieuenctid Ceredigion yn wahanol iawn i un Powys. Nid yw'r tîm cyfan ond yn cynnwys Pennaeth Gwasanaethau Ieuenctid (sydd hefyd yn cynnal Theatr Felinfach), dau weithiwr gwasanaethau ieuenctid ac un gweithiwr pwrpasol yn Aberteifi. Cyflenwir 90% o'r gwasanaethau i bobl ifanc yn y sir gan y sector gwirfoddol.
- Mae cynllun gwobr Dug Caeredin rhan-amser ar waith yn y sir gyda 160 o bobl yn

cymryd rhan, ond nid oes unrhyw strwythurau ieuenctid nac addysg gymunedol fel ag a geir yng Nghaerfyrddin. Fodd bynnag, mae'r sir yn cynnal fforymau ieuenctid a chynlluniau "pick-up".

- Mae'r brif ddarpariaeth arbenigol i bobl ifanc yng Ngheredigion wedi'i chanoli yn Theatr Felinfach, lle mae pobl ifanc yn gweithio'n greadigol drwy'r celfyddydau.
- Mae'r maes hwn, ynghyd â hybu dwyieithrwydd, yn rhywbeth y mae Ceredigion yn ymfalchïo ynddo. Mae yna wendidau yn ei wasanaethau, fodd bynnag, megis prinder gweithwyr ieuenctid arbenigol a diffyg cynllunio ar lefel strategol.
- Yn y gorffennol, mae'r ddarpariaeth gwasanaethau ieuenctid yng Ngheredigion wedi canolbwyntio ar y gyfundrefn ysgolion; fodd bynnag, yr oedd angen systemau amgen ar gyfer pobl ifanc sy'n llithro drwy'r rhwyd.
- Apeliodd Mr Lewis am gyngor ar sut y dylai amrywiol strategaethau ategol y Cynulliad berthnasu i'w gilydd.

Gwnaethpwyd y sylwadau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb:

- Mewn ymateb i gwestiwn am sut y mae'r awdurdodau lleol yn rhoi "Ymestyn Hawliau" ar waith yn ymarferol, dywedodd Mr Whittick fod Cyngor Sir Powys wedi cyflwyno'r adroddiad i aelodau'r Cyngor a'i fod bellach yn llunio fframwaith ar gyfer gweithio ar y cyd. Yr oedd yn hyderus y byddai'r awdurdod yn cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn y fframwaith hwnnw. Atebodd Mr Lewis fod Prif Swyddogion yng Ngheredigion yn ymwybodol o'r ddogfen. Yr oedd cynhadledd wedi'i threfnu ar gyfer 21 Chwefror gyda'r nod o fapio'r gwasanaeth sydd ar gael yng Ngheredigion.
- Os oedd y Cynulliad am weld gwasanaethau ieuenctid yn tyfu a gwella, dywedodd Mr Whittick fod yn rhaid cael ffordd o sianelu grant yr awdurdodau lleol atynt heb bridiannu. Teimlai Mr Lewis hefyd fod angen diffinio diben yr arian a roddir i wasanaethau ieuenctid yng ngrant addysg y Cynulliad yn gliriach.
- Teimlai Mr Whittick a Mr Lewis y gellid gwneud mwy i wella gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc anabl, ond mae trafnidiaeth a mynediad yn peri anawsterau neilltuol yn y cyswllt hwn. Teimlai Mr Whittick y dylid rhoi anogaeth i integreiddio gwasanaethau ar gyfer yr anabl o fewn y brif ffrwd.
- Mae'r gost o gynnal archwiliadau heddlu ar wirfoddolwyr yn broblem neilltuol i fudiadau gwirfoddol ym Mhowys. Teimlai Mr Whittick a Mr Lewis fod yna ddadl gref o blaid cwrdd â'r costau hyn yn ganolog.

**Cyngor Ieuenctid Cymru**

Cynrychiolydd:

Wayne David

Gwnaethpwyd y pwyntiau allweddol canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Eglurodd Mr David ei fod yn cynrychioli CWVYS yn ogystal â Chyngor Ieuenctid Cymru.
- Croesawai'r ddogfen "Ymestyn Hawliau" yn fawr. Dywedodd ei bod yn ddatganiad cryf a grymus ar ran gweithwyr ieuenctid, yn mapio dyfodol ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid sy'n gwahaniaethu rhwng Cymru a Lloegr. Mae partneriaeth yn gysyniad canolog yn y ddogfen, ond nid yw'r berthynas â'r sector gwirfoddol wedi'i mapio'n fanwl iawn. Yn hytrach, mae'r pwyslais yn y ddogfen ar ddarpariaeth gan yr awdurdodau lleol. Gobeithiai Mr David y gallai'r Cynulliad roi cyfarwyddyd yngln â faint o rôl sydd gan y sector gwirfoddol i'w chwarae yn y gwasanaeth ieuenctid. Gobeithiai y câi fformwla ei sefydlu a fyddai'n caniatáu'r cyfraniad gwirfoddol mwyaf posibl tuag at gyflenwi gwasanaethau ieuenctid.
- Yr oedd Mr David yn pryderu nad yw'r bwriadau a nodwyd yn y ddogfen wedi'u hatgyfnerthu mor belled gydag ymrwymiad ariannol digonol.
- Mae angen newid diwylliannol parhaus ar bob lefel o lywodraeth yng Nghymru i alluogi pobl ifanc i gyfrannu'n llawn tuag at y broses polisi
- Mae'r agwedd nawddogol draddodiadol tuag at faterion ieuenctid wedi peri i bobl deimlo nad oes neb yn gwrando arnynt. Mae gwleidyddion yn rhagdybio beth sydd ei angen ar bobl ifanc, ond pobl ifanc eu hunain sydd yn y lle gorau i ystyried eu hanghenion. Mae angen grymuso pobl ifanc.
- Mae angen i'r Cynulliad ymaflyd yn y ddraenen a sicrhau bod adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu. Mae gan ESTYN hefyd rôl i'w chwarae i sicrhau cyfraniad cryf o du'r sector gwirfoddol.

**Youthlink Cymru**

Cynrychiolwyr:

Veronica Wilson, Cyd-drefnydd

Christopher Hawkins, Cadeirydd Pylsedd (Pwyllgor o bobl ifanc)

Rachel Wilkins, Gwirfoddolwr, Prosiect Sorted

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y cyflwyniad:

- Rhoddodd Christopher Hawkins grynodeb byr o hanes ac amcanion y mudiad. Sefydlwyd Youthlink Cymru yn 1985 gyda'r nod o atal camddefnyddio sylweddau ac atal HIV rhag lledaenu ymysg pobl ifanc. Mae'n cyflawni ei amcanion drwy addysg a gyflwynir o dan arweiniad cyfoedion, gyda phobl ifanc yn datblygu a chynnal holl weithgareddau'r mudiad. Ar hyn o bryd mae'n derbyn £10k o gyllid craidd gan y Cynulliad.
- Dywedodd Mr Hawkins fod y cyswllt rhwng pobl ifanc ac oedolion yn un pwysig. Mae pobl ifanc yn aml yn cael eu stereoteipio mewn modd dinistriol a all arwain at ymdeimlad

ffug o hunaniaeth. Mae'n bwysig chwalu'r stereoteipiau ac mae'n hanfodol bwysig bod pobl ifanc yn cael cyswllt rheolaidd gyda phobl fel ACau sydd â'r gallu i wneud newidiadau cadarnhaol. Yn aml, mae pobl ifanc yn teimlo bod y system wleidyddol yn amherthnasol i'w hanghenion. Mae Youthlink Cymru yn annog pobl ifanc i ddeall gwleidyddiaeth ac mae wedi lobïo o blaid senedd i'r ifanc yng Nghymru.

- Eglurodd Rachel Wilkins fanteision y prosiect SORTED, sy'n defnyddio drama i gyfleu'r neges ar gamddefnyddio cyffuriau. Mae'r prosiect hefyd yn codi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl ac yn help i feithrin hyder yn y rheini sy'n cymryd rhan.
- Dywedodd Veronica Wilson fod Youthlink Cymru yn croesawu'r ddogfen "Ymestyn Hawliau" ond tynnodd sylw at dri phwnc a haeddai fwy o sylw. Yn gyntaf, ymgynghori: mae angen i'r Cynulliad sefydlu strwythurau addas ac amserlenni realistig ar gyfer ymgynghori â phobl ifanc ac mae angen canlyniadau positif o ran datblygiad cymdeithasol a phersonol. Yn ail, rhaid pwysleisio pwysigrwydd partneriaeth, yn enwedig partneriaethau gyda'r sector gwirfoddol. Yn drydydd, mae angen mwy o adnoddau i hyfforddi a chefnogi pobl ifanc.

**Llais Ifanc**

Cynrychiolydd:

Elen Jones

Gwnaethpwyd y pwyntiau allweddol canlynol yn ystod y cyflwyniad:

- Hysbysodd Elen Jones yr aelodau fod rhaglen waith Llais Ifanc yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:
- Cynhyrchu pecynnau gwybodaeth a gynlluniwyd fel na fyddent yn dyddio am gyfnod hir.
- Trefnu cynadleddau; cynhaliwyd cynhadledd ddefnyddiol yn y Cynulliad fis Gorffennaf diwethaf, gyda dros 70 o bobl yn yr ystod oedran 15-17 yn bresennol ynddi.
- Datblygu safle Llais Ifanc ar y we. Cyn bo hir caiff ei hailddylunio'n llwyr gan bobl ifanc.
- Ar y cyd â CWVYS, mae cyfres o ystafelloedd sgwrsio wedi'i datblygu.
- Mae'r mudiad i dderbyn cyllid gan y llywodraeth am y tair blynedd nesaf i ddatblygu cynlluniau megis y safle ar y we ac ystafelloedd sgwrsio.
- Dywedodd Ms Jones fod angen i'r Cynulliad sicrhau bod strwythur wedi'i sefydlu i ymateb i farn pobl ifanc a dangos ei fod yn sefydliad sy'n gwrando.

**Urdd Gobaith Cymru**

Cynrychiolydd:

Jim O’Rourke, Prif Weithredwr

Yr oedd prif bwyntiau’r cyflwyniad fel a ganlyn:

- Mae’r mudiad yn cyflogi 156 o staff amser llawn ar draws Cymru ac mae ei drosiant blynyddol yn £4 miliwn.
- Croesawai Mr O’Rourke 'Ymestyn Hawliau' fel cam mawr ymlaen tuag at sefydlu fframwaith priodol ar gyfer darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Mae’r Urdd wrthi ar hyn o bryd yn paratoi Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2001-2005 a fydd yn cyd-fynd ag 'Ymestyn Hawliau'. Diben y cynllun yw sicrhau gwasanaeth proffesiynol, gweithgareddau cyffrous i’r aelodau a fydd yn rhoi boddhad iddynt, a rhoi llais llawn i’r aelodau yn y gwaith o lunio penderfyniadau o fewn y mudiad.
- Tynnodd Mr O’Rourke sylw’r Pwyllgor at yr hyn a ddisgrifi fel "argyfwng cyllido" i’r Urdd, a’r gostyngiad yn y cyllid a gâi tuag at ei weithgareddau craidd gan Awdurdodau Lleol a’r Cynulliad. Mynegodd y gobaith y byddai 'Ymestyn Hawliau' yn dangos y ffordd ymlaen.
- Teimlai Mr O’Rourke mai ymateb yr awdurdodau lleol i "Ymestyn Hawliau" fyddai’r allwedd i weithredu llwyddiannus.

**Area 43 (canolfan galw i mewn yn Aberteifi)**

Cynrychiolydd:

Phil Leyton

- Mae canolfan Area 43 yn gweithredu fel canolfan wybodaeth, yn darparu cyngor yngln ag addysg a chyflogaeth, gwasanaethau cwnsela ac eiriolaeth, gweithdai sgiliau byw a gweithgareddau cymdeithasol.
- Cymeradwyodd 'Ymestyn Hawliau' fel fframwaith, ond holai pa un y ceid ymrwymiad ariannol priodol i fynd law yn llaw ag ef.
- Yn ogystal, cododd y problemau sy’n neilltuol i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig, a dywedodd bod angen eu cydnabod a darparu adnoddau priodol er mwyn gallu rhoi sylw iddynt.
- Dangosai arolwg diweddar ar draws Ceredigion fod pobl ifanc am gael gwell rhagolygon, gwell trafnidiaeth, gwell cyfathrebu gyda’r awdurdodau perthnasol, a gwell cyfleusterau cymdeithasol.
- Mae gwaith ieuenctid effeithiol yn arbed arian yn y tymor hir. Dylai’r Cynulliad gydnabod hyn a buddsoddi’n unol â hynny.

**Cyflwyniad gan Ysgol Uwchradd Gwernyfed**

Cynrychiolwyr:

Gavin Prentice

Sarah Smart

- Tynnodd Gavin Prentice sylw at yr angen i bobl ifanc 16 – 18 oed mewn addysg amser llawn gael rhyw fath o annibyniaeth ariannol. Câi hyn ei deimlo'n arbennig o gryf mewn ardaloedd gwledig lle'r oedd trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau adloniant yn llai hygyrch nag mewn ardaloedd trefol. Cyfeiriodd hefyd at yr angen i ymdrin â chyflogau isel yn y grp oedran hwnnw.
- Cyfeiriodd Sarah Smart at yr anhawster a gaiff myfyrwyr i sicrhau lleoliadau profiad gwaith addas mewn ardaloedd gwledig a'r angen yn sgîl hynny am help gyda chostau teithio. Yn ogystal, nid oedd gan y rheini a oedd yn dymuno mynd i Brifysgol unrhyw ddewis ond gadael cartref. Ychwanegai hyn at y gost i bobl ifanc a oedd am barhau â'u haddysg.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Bydd y gofyniad i fudiadau gwirfoddol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc gael archwiliad wedi'i gynnal gan yr heddlu ar wirfoddolwyr yn golygu cost sylweddol i Urdd Gobaith Cymru. Gallai'r gost o gynnal archwiliadau ar ei 10,000 o wirfoddolwyr fod yn gymaint â £150,000. Byddai'r gost i fudiadau llai megis Area 43 yn llai sylweddol.
- Tynnwyd sylw at yr 'hierarchiaeth angen' o safbwynt darparu cyllid i fudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Golygai pennu'r flaenoriaeth gymharol rhwng rhoi sylw i anghenion pobl ifanc ddigartref a'r rheini y mae angen annibyniaeth ariannol arnynt er mwyn parhau ag addysg bellach, er enghraifft, ddewisiadau anodd i'r Cynulliad a chyrff cyllido eraill. Yr oedd yn bwysig bod archwiliad yn cael ei gynnal i'r modd y cyllidir gwaith ieuenctid.

**Gwasanaeth Arweiniad Gyrfaoedd Powys**

Cynrychiolydd:

Russell Little, Cyd-drefnydd prosiect Powys Youth Gateway sy'n delio'n bennaf â phobl ifanc 16 i 18 oed.

Dyma brif bwyntiau'r cyflwyniad:

- Croesawai Gwasanaeth Arweiniad Gyrfaoedd Powys y ddogfen 'Ymestyn Hawliau' ac mae'n gweithio ar ddatblygu newidiadau i'w gynllun corfforaethol a'i ddulliau gwaith er mwyn ymgorffori pwyntiau allweddol y ddogfen.
- Mae'r cwmni'n gyfrifol am ddarparu cyfarwyddyd gyrfaol i bob person ifanc mewn pob ysgol gyfun ym Mhowys ac mae yna hefyd gangen cyfarwyddyd oedolion.

- Nod pennaf y Gwasanaeth yw darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd, cefnogaeth a chyngor diduedd er mwyn helpu i alluogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau priodol yngln â'u gyrfa.
- Caiff prosiect Powys Youth Gateway ei gynnal gan 9 aelod staff ac fe'i noddir gyda grant gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Nod y prosiect, sy'n gweithio'n agos gyda phrosiectau gwirfoddol, yw darparu gwasanaeth yn y gymuned i'r sir gyfan.
- Dywedodd Mr Little y bu yna rywfaint o ddyblygu ar waith y Gwasanaeth gydag asiantaethau hyfforddi ac ysgolion a bod yn rhaid gwella'r trefniadau cyfathrebu i'r dyfodol er mwyn sicrhau gwasanaeth mwy effeithiol, sydd wedi'i gyd-drefnu'n well.

Gwnaethpwyd y sylwadau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Mewn ymateb i gwestiwn yngln â chyswllt â busnesau, cadarnhaodd Mr Little fod y prosiect Youth Gateway wrthi ar y pryd yn trafod gyda chyflogwyr a allai gynnig cyfleoedd i bobl ifanc a bod y cwmni'n rhoi cefnogaeth i'r sawl sy'n darparu'r cyfle yn ogystal â'r sawl sy'n ei geisio.

**Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru**

Cynrychiolydd:

Gareth Evans Jones

Rhoddodd Mr Evans Jones gyflwyniad ar brif gynlluniau a gweithgareddau CFfI Cymru yn y Canolbarth. Mae'r pwyntiau isod yn grynodeb o'r prif bwyntiau a wnaethpwyd yn ystod y cyflwyniad:

- Ceir 5 ffederasiwn o Glybiau Ffermwyr Ifanc yn y Canolbarth – Maesyfed, Brycheiniog, Maldwyn, Meirionydd a Cheredigion.
- Mae gan CFfI 6,000 o aelodau drwy'r wlad, a daw eu hanner o'r 74 clwb yn y Canolbarth.
- Mae'r Clybiau'n cynnal cyfarfodydd bob wythnos neu bythefnos a gall y cyfarfodydd gynnwys cyflwyniadau gan siaradwyr gwadd, nosweithiau hyfforddi lle bydd arbenigwyr busnes yn bresennol, gweithgareddau Dug Caeredin a digwyddiadau elusennol eraill a nosweithiau cyfnewid gyda Chlybiau eraill.
- Mae gweithgareddau'r clybiau'n cynnwys:
- rhaglenni addysg gymdeithasol

- cystadlaethau chwaraeon ac amaethyddol
- mynd i’r Sioe Frenhinol
- rali flynyddol
- 5 Gyl Ddrama sydd i’w cynnal cyn bo hir yn ardal y Canolbarth
- cyrsiau sgiliau byw (y mae’r Clwb wedi derbyn tystysgrif cyrhaeddiad gan CBAC amdanynt)
- Bu clybiau’n cynnal prosiectau bywyd gwledig mewn cymunedau lleol; enghraifft o hyn oedd plannu gardd ysbyty ym Machynlleth. Dywedodd Mr Evans Jones fod y nawdd Ewropeaidd tuag at y prosiectau hyn yn dod i ben eleni.
- Fel rhan o gynllun gwaith Ieuenctid, cafodd ysgubor ei hadnewyddu a gardd berlysiau ei chreu yn Llanandras.
- Mae CFfI Cymru wedi cyflwyno cynllun o dan y teitl "Chwalu’r Ffiniau " yn ddiweddar i sicrhau polisi effeithiol ar ddwyieithrwydd.
- Mae’r Clybiau’n cynnal rhaglenni addysg iechyd ac mae clwb Maldwyn yn cynnal grp trafod iechyd i ddynion.
- Gorffennodd Mr Evans Jones drwy ddweud bod cyllid yn brin, er bod yr awdurdodau lleol yn gefnogol i CFfI Cymru, a bod angen cyllid craidd i dalu’r costau gweinyddol.
- Ychwanegodd mai prif amcanion CFfI yw cael hwyl, rhoi cyfle i bobl ifanc (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig) i weithredu gyda brwdfrydedd a darparu cyfleoedd datblygu ar gyfer eu haelodau.

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth ddilynol:

- Mynegodd Glyn Davies ei bryder yngln â'r diffyg pobl ifanc sy’n mynd i mewn i’r proffesiwn ffermio a holodd a oedd yna strategaeth ar fynediad buan.
- Cadarnhaodd Gareth Evans Jones i CFfI Cymru gael cyfle, yn ystod ymweliad diweddar â Brwsel, i weld y cynlluniau mynediad a gynigir ym Mrwsel a bod Gweinidog y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi gofyn i CFfI Cymru gyflwyno’u sylwadau ar y mater iddo.

**<u>Eitem 2: Cyflwyniadau Cyhoeddus</u>**

Ysgol Gynradd Libanus

Cynrychiolwyr:

Kate Lowles

Adele Francis

Cyflwynodd Ms Lowles a Ms Francis yr achos o blaid cadw ysgolion gwledig bach. Y prif bwyntiau yn y cyflwyniad oedd:

- Dylai polisi'r Cynulliad ar ysgolion bach anelu at ymdrin â phob ysgol ar ei haeddiant.
- Mae Ysgol Gynradd Libanus o dan fygythiad difrifol y caiff ei chau. Ar hyn o bryd 23 o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, sy'n sylweddol is na'r nifer isaf ar y gofrestr a fynnir gan Gyngor Sir Powys, sef 28.
- Ni ddylai ysgolion gael eu barnu ar nifer y disgyblion gan fod y rhain yn gallu amrywio'n fawr iawn.
- Yn 1991, 16 o ddisgyblion oedd yn Ysgol Libanus, erbyn 1996 cododd y nifer i 46 ond yn 1999 yr oedd yn ôl i 16.
- Yn gyffredinol, mae ysgolion bach yn cynhyrchu safonau addysgol uwch na'r cyfartaledd, gyda'r plant yn datblygu sgiliau cymdeithasol ac addysgol o fewn grp oedran ehangach.
- Fel arfer mae plant yn datblygu lefel uchel o ofal dros eraill a goddefgarwch, tra mai prin iawn y ceir unrhyw fwlio na thriwantiaeth. Mae pob plentyn yn datblygu ar ei gyflymdra ei hun a chanddo gynllun dysgu personol.
- Mae Ysgol Gynradd Libanus wedi cael llwyddiant arbennig ym maes cerddoriaeth dros y blynyddoedd diwethaf gyda dau blentyn 10 oed yn cael ei ddewis i astudio yng Ngholeg Celf a Drama Cymru, sydd mor uchel ei barch.
- Mae ysgolion bach yn cyfrannu'n fawr tuag at fywyd y gymuned leol. Byddai cau Ysgol Gynradd Libanus yn ergyd drom i fywyd y gymuned ac mae'n debygol y byddai'r pentref yn colli ei ganolfan gymuned.
- Os bydd i'r Cynulliad Cenedlaethol bennu nifer isaf o ddisgyblion sy'n ofynnol ar gofrestr ysgolion, dylid cynnwys pedair blynedd o glustog i adlewyrchu mor araf y mae newidiadau demograffig yn digwydd. Gofynnai Ysgol Gynradd Libanus i'r Cynulliad ystyried gweddnewid ei bolisi ar ysgolion bach.

**Ysgol Gynradd Trecastell**

Cynrychiolwyr:

Margaret Tweedy

Gareth Davies

Cyflwynodd Ms Tweedy a Mr Davies hefyd yr achos o blaid cadw ysgolion gwledig bach. Y prif bwyntiau yn y cyflwyniad oedd:

- Mae Ysgol Gynradd Trecastell yn cytuno'n llwyr â datganiad diweddar Jayne Davidson fod "angen i benderfyniadau ar gyllido ysgolion gydnabod ystyriaethau lleol a mater i ddemocratiaeth leol ydynt yn eu hanfod".

- Wrth ddatblygu polisi ar ysgolion bach, dylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r pwyntiau canlynol:
- Safonau addysgol
- Effeithlonrwydd – ni waeth beth fo'i maint na'r niferoedd, pa mor effeithlon yw'r ysgol?
- Rheolaeth ariannol – pa mor dda y mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid?
- Sefydlogrwydd – rhaid caniatáu digon o amser i ysgolion gynllunio a gweithredu
- Cyfranogiad y gymuned – mae'r ysgol wrth graidd y rhan fwyaf o gymunedau gwledig yng Nghymru.
- Dylid seilio unrhyw bolisi a ddatblygir gan y Cynulliad ar y pwyntiau hyn. Un ffactor nad yw'n bwysig yw maint yr ysgol, o'i fesur yn ôl nifer y disgyblion. Os yw'r ysgol yn foddhaol, nid yw ei maint yn cyfrif llawer mewn gwirionedd.
- Mae Ysgol Gynradd Trecastell wedi helpu i gadw'r iaith Gymraeg yn fyw iawn yn y gymdogaeth, gyda llawer o'i disgyblion yn cymryd rhan mewn Eisteddfodau, Clybiau Ffermwyr Ifanc ayb

**Mr Peter Seaman MBE, Clerc, Cyngor Cymuned Talybont-ar-Wysg**

**Mrs Astrid Inglis**

Gwnaethpwyd y pwyntiau allweddol canlynol yn ystod y cyflwyniad:

- Tynnodd Mr Seaman a Mrs Inglis sylw'r Pwyllgor at y problemau difrifol o ran damweiniau ffyrdd ar yr A40, yn enwedig y nifer uchel o bobl sy'n cael eu lladd ar yr A40 rhwng Bwlch a Llanhamlach.
- Mae'r problemau ar yr A40 yn waeth am fod cerbydau'n teithio mor gyflym i'r naill gyfeiriad a'r llall ar yr A40. Mae cerbydau'n aml yn torri'r cyfyngiadau cyflymder ac nid ydynt yn cadw at y pellterau brecio gofynnol o fewn pellter gweld.
- Gofynasant i'r Pwyllgor ystyried:
- Cyflwyno cyfyngiad cyflymder 30mya ar gyffordd Talybont-ar-Wysg, i'w orfodi gyda chamera cyflymder;
- Cyflwyno cyfyngiad 50mya rhwng Bwlch a'r gerbydlon ddeuol yn Llanhamlach.
- Mae'r Cyngor Cymuned wedi bod yn codi'r pwyntiau hyn gyda Chyfarwyddiaeth Briffyrdd y Cynulliad ers blynyddoedd lawer, ond nid oes dim wedi'i wneud eto.

**BUMP! - Brecon Unites for Maternity Provision**

Cynrychiolydd:

Christala Sophocleous

Gwnaethpwyd y pwyntiau allweddol canlynol yn ystod y cyflwyniad:

- Mae BUMP! yn gwrthwynebu israddio’r gwasanaeth mamolaeth yn Ysbyty Coffa Aberhonddu, o wasanaeth arbenigol gan ymarferwyr cyffredinol i’r Gwasanaeth a Reolir gan Fydwraig sy’n cael ei gynnig.
- Yr oedd yr uned famolaeth yn Ysbyty Coffa Aberhonddu yn darparu gwasanaeth rhagorol i fenywod beichiog a gallai wasanaethu 80% o’r menywod beichiog yn ardal Aberhonddu. Mae gostwng lefel y gwasanaeth yn golygu y bydd llawer yn awr yn gorfod teithio i ysbyty Nevill Hall yn y Fenni ar ffordd un gerbydlon lle mae perygl o lifogydd a damweiniau – ar saith achlysur dros y ddwy flynedd diwethaf bu’r ffordd ar gau.
- O fewn De Powys mae yna dri chriw ambiwlans 24 awr ar alwad ar unrhyw adeg; un yr un yn Aberhonddu, Bronllys ac Ystradgynlais. Os yw criw Aberhonddu yn delio ag achos brys, byddai’n rhaid i un o’r criwiau eraill ddarparu’r gwasanaeth hwn yn ei le – sefyllfa a fyddai’n gwneud y pellterau teithio yn waeth. Ar ben hynny, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth Ambiwlans unrhyw gerbydau gyriant 4 olwyn yn yr ardal hon.
- Anogodd Ms Sophocleous yr Aelodau i ystyried y mater hwn a thrafod yr achos gyda’r cyrff priodol.

**Eitem 3: Cofnodion Cyfarfod y 1af Rhagfyr - MID 05-00(min)**

Cymeradwywyd y cofnodion heb eu newid.

**Y cyfarfod nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 30 Mawrth yn Llanidloes a bydd yn canolbwyntio ar faterion ynni adnewyddadwy.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Chwefror 2001**